

## **Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo Gynadledda drwy Zoom	Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddPPIA@senedd.cymru">SeneddPPIA@senedd.cymru</a>

---

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv).**

### **Rhag-gyfarfod preifat**

(08.45 – 09.15)

#### **1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.15)

#### **2 Sesiwn dystiolaeth ar effaith Covid-19 ar addysgu a dysgu o bell, ac ar arholiadau ac asesiadau gyda Chymwysterau Cymru a CBAC**

(09.15 – 10.10)

(Tudalennau 1 – 19)

David Jones, Cadeirydd – Cymwysterau Cymru

Philip Blaker, Prif Weithredwr – Cymwysterau Cymru

Jo Richards, Cyfarwyddwr Rheoleiddio – Cymwysterau Cymru

Ian Morgan, Prif Weithredwr – CBAC

Elaine Carlile, Cyfarwyddwr Cymwysterau, Asesu a Swyddog Cyfrifol – CBAC

#### **Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

### **Egwyl**

(10.10 – 10.25)



**3 Sesiwn dystiolaeth ar effaith Covid-19 ar addysgu a dysgu o bell, ac ar arholiadau ac asesiadau gyda Louise Casella**

(10.25 – 11.10)

Louise Casella, Cadeirydd yr adolygiad annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021

**Egwyl**

(11.10 – 11.25)

**4 Sesiwn dystiolaeth ar effaith Covid-19 ar addysgu a dysgu o bell, ac ar arholiadau ac asesiadau gyda chynrychiolwyr y sector addysg**

(11.25 – 12.25)

Guy Lacey, Prif Swyddog Gweithredol/Pennaeth Coleg Gwent ac Is-gadeirydd ColegauCymru

Kay Martin, Pennaeth Coleg Caerdydd a'r Fro a Chadeirydd Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd ColegauCymru

Meinir Ebbsworth, Prif Swyddog Addysg/Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Ysgolion a Diwylliant, Cyngor Ceredigion ac yn cynrychioli Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg

Mike Tate, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes – Cyngor Caerdydd ac yn cynrychioli Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg

Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac aelod Cabinet dros Addysg – Cyngor Sir y Fflint a Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dros Addysg

Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr – Consortia Addysg GwE ac yn cynrychioli'r holl Consortia Addysg Rhanbarthol

**5 Papurau i'w nodi**

(12.25)

**5.1 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan NASUWT yn dilyn y cyfarfod ar 24 Medi**

(Tudalen 20)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 1 (Saesneg yn unig)

**5.2 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) yn dilyn y cyfarfod ar 24 Medi**

(Tudalen 21)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 2 (Saesneg yn unig)

**5.3 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) yn dilyn y cyfarfod ar 24 Medi**

(Tudalennau 22 – 23)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 3 (Saesneg yn unig)

**5.4 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn dilyn y cyfarfod ar 24 Medi**

(Tudalen 24)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 4 (Saesneg yn unig)

**5.5 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn dilyn y cyfarfod ar 24 Medi**

(Tudalennau 25 – 30)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 5

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 5 (Cyfieithwyd)

**5.6 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn y cyfarfod ar 8 Hydref**  
(Tudalennau 31 – 33)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 6

**5.7 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan Gomisiynydd Plant Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 8 Hydref**  
(Tudalennau 34 – 38)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 7

**5.8 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan Brooke, NSPCC, yr Athro Renold, Cymorth i Ferched Cymru a Stonewall Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 8 Hydref**  
(Tudalennau 39 – 41)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 8 (Saesneg yn unig)

**5.9 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan y Gwasanaeth Addysg Gatholig yn dilyn y cyfarfod ar 15 Hydref**  
(Tudalennau 42 – 47)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 9 (Saesneg yn unig)

**5.10 Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) gan yr Eglwys yng Nghymru yn dilyn y cyfarfod ar 15 Hydref**  
(Tudalennau 48 – 51)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 10 (Saesneg yn unig)

**5.11 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Gweinidog Addysg – gwybodaeth ychwanegol ar gyfer Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn dilyn y cyfarfod ar 21 Hydref**  
(Tudalennau 52 – 61)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 11

**5.12 Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y cyfnod atal byr a'i effaith ar blant a phobl ifanc**

(Tudalennau 62 – 66)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-27-20 – Papur i'w nodi 12

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(12.25)

**7 Effaith Covid-19 ar addysgu a dysgu o bell, ac ar arholiadau ac asesiadau – trafod y dystiolaeth**

(12.25 – 12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

### **Additional information from NASUWT**

Thank you for the opportunity to provide supplementary evidence to the Children, Young People and Education Committee. I would respond in the order of the bullet points received:

#### **What the NASUWT would view as a realistic timescale for the commencement and implementation of the Curriculum Bill and its provisions.**

At present the entire educational establishment is focussed upon providing the best educational provision that it can in incredibly difficult circumstances. This was meant to be the year when schools developed the new curriculum supported by Estyn and the Consortia. That is not happening. To continue with the timetable for implementation is to pretend that nothing is going on in schools at the moment which is an insult to education workers who are struggling to provide a meaningful education during a health crisis. A realistic timescale would be to wait until the crisis is over. That would be when schools can operate as normal without fear of the virus. When that time comes the timetable can be restarted with the aim of giving one full academic year for preparation for delivery.

#### **Will teachers need training or support to ensure their teaching and delivery of RVE is pluralistic, critical and objective?**

Yes, of course. This will be new to a lot of teachers. We know that professional development has generally been very patchy; RVE will be no different, and perhaps worse. There isn't an outcome to the consultation on this yet, only an analysis of the responses. There is the issue of plurality of curriculum in schools of a religious character, which therefore has not been resolved.

#### **What particular challenges and opportunities might there be in English-medium schools of working on a single learning continuum for Welsh?**

The NASUWT is concerned that this will practically require individual learning plans for each pupil. There are massive workload implications here. We have expressed concerns before about the narrowing of the curriculum caused by the compulsory nature of some subjects at KS4 and beyond. Some of our members have raised concerns with having to teach pupils who would prefer to be focusing on other subjects and the discipline issues that this can cause. Many have raised the impact of curriculum design on MFL.

Best Wishes,

Neil Butler  
NASUWT National Official Wales.

ASCL Cymru response to CYPEC.

- Do you believe the more flexible and discretionary approach being taken to the new curriculum makes it more difficult to design qualifications which consistently examine and demonstrate learner achievement?
  - *We do not believe that the design of qualifications will be more difficult to design. The task will require imagination, creativity and an innovative approach, which if designed with the profession, should be a more exciting and relevant way to demonstrate learner achievement in the round. Schools have already shown their ability to design the curriculum and will now be a vital resource for the next stages of the curriculum reform journey.*
- Do you believe there is enough clarity and certainty about what qualifications alongside the new curriculum will look like and what implications does this have for head teachers and school leadership teams?
  - *At the moment, no. However, this is understandable given the current circumstances and the fact the curriculum is not yet fully up on its feet. Clarity, however, is now urgently required regarding the principles and architecture of the qualifications and an outline of assessment methodologies. Heads and leadership teams need clarity around the qualification architecture proposed by both QW and the WJEC. These exams cannot be the same as now, otherwise this exciting curriculum will fail to get traction. Professional development around a new qualification system of delivery will be required as well as well designed bilingual resources. There is a great deal to be done!*
- How will head teachers and governing bodies ensure that the teaching of RVE in their school, not just the design of the curriculum, is sufficiently objective, critical and pluralistic?
  - *This is already a priority for Heads and governors and has been for some time.*



## **NEU Cymru additional evidence CYPE Stage 1 scrutiny of the Curriculum and Assessment Bill**

\* Will teachers need training or support to ensure their teaching and delivery of RVE is pluralistic, critical and objective?

A school may have pupils with many religious or non-religious beliefs in attendance and the school therefore needs to ensure that the content of the RVE part of the curriculum is inclusive, pluralistic and developmentally appropriate. We believe it is essential that schools and education professionals have access to high-quality training to ensure that they can deliver the new RVE curriculum. If the funding for this is not made available to schools, they will not be as able to teach an inclusive and developmentally appropriate curriculum, which in turn, could lead to tensions between Local Authorities, education professionals, parents and schools.

\* What particular challenges (and opportunities?) might there be in English-medium schools of working on a single learning continuum for Welsh?

We support the Welsh Government's aim to have 1 million Welsh speakers by 2050. We have always said that this will only be possible if we ensure there is support available for the current and future workforce, to ensure they are able to teach, and young people to learn and practice their Welsh.

### **GCSEs**

Our members highlight that it is vital that there is a clear understanding of what is meant by a continuum. Whilst there are attractions in a unified programme of study, current provision is heavily influenced top down by whether learners are to be assessed at GCSE according to the Welsh or Welsh Second Language specification. We understand that many able, second language speakers, the latter specification can be insufficiently challenging and the former, with its emphasis on command of idiom and technical correctness in writing, too demanding. However, the combination of these two specifications into a combined programme of study, or continuum, will succeed or fail based on how it is assessed at GCSE. As we don't know what the assessment system will look like yet, it is therefore hard to judge. We do have opportunities to do this well, and really look at what the purpose of assessment is. This year has

shown us that exams are subject to a range of factors, and are not necessarily comparable year on year.

On whatever scale progress is measured, the most able linguists will be at a higher level and newcomers, or less able linguists, and those who are Welsh second-language learners, will likely be less advanced. This could make Welsh as a subject unpopular with those who will never perceive themselves as being "successful" to gain high results in exams/assessments.

We believe, there is anecdotal evidence of universities rejecting applications from learners on the basis of GCSE results as they were not perceived to be "all round performers," where the grade achieved in Welsh did not match the top grades secured in other subjects.

Therefore, we need to ensure that a single examination, even if tiered, avoids a cap to the grades achievable by pupils who would be the usual second language cohort. We would not want to impact on the motivation of young people to learn Welsh and the appeal of a subject which is integral to providing the future Welsh speakers, which the Welsh Government aims for.

### **Training**

We need to produce more teachers who can teach through the medium of Welsh, or enough teachers with the Welsh language skills to teach to the highest levels. We need to ensure that all schools are using teachers trained in the subject to teach Welsh.

Therefore, training is needed to ensure that Welsh can be embedded within the new Curriculum, as we presume is the aim of the "continuum". We would expect Welsh Government to provide such training opportunities. We would not want to risk people leaving the profession because they are unable to speak Welsh. People who have been in the profession for a long time, may, for example, be experienced classroom teachers, who should be able to use their skills within the context of the new Curriculum. Therefore opportunities for everyone to learn Welsh are essential, to ensure we have the workforce to deliver the expectations of the new Curriculum.

Contact: [mary.vandenheuvel@neu.org.uk](mailto:mary.vandenheuvel@neu.org.uk)

CYPE – additional questions RE curriculum

- Do you believe the more flexible and discretionary approach being taken to the new curriculum makes it more difficult to design qualifications which consistently examine and demonstrate learner achievement?

NAHT Cymru has raised concerns previously around how qualifications which are traditionally subject-specific are going to dovetail with this new approach. Although we believe in the flexibility of the approach for learning has huge benefits, the question of qualifications remains largely unanswered. There is undoubtedly a huge piece of work here in terms of upskilling those stakeholders and partners to be responsive to the schools new starting points and until there are some more details on this, it is difficult to comment further.

- Do you believe there is enough clarity and certainty about what qualifications alongside the new curriculum will look like and what implications does this have for head teachers and school leadership teams?

In short, no. There is little clarity, as referenced in the previous answer, around qualifications alongside the new curriculum will look like. Without that clarity, NAHT Cymru reserves its judgement on the implications for headteachers and school leadership teams.

- How will head teachers and governing bodies ensure that the teaching of RVE in their school, not just the design of the curriculum, is sufficiently objective, critical and pluralistic?

NAHT Cymru believes ensuring RVE delivery is objective, critical and pluralistic is going to come down to a number of factors, namely trust and confidence in the profession to deliver RVE in the way it is intended to be delivered; sufficient training to ensure staff are equipped to deliver lessons; robust assessment arrangements underpinned by a middle tier/governing body that buys in to the process.

Laura Doel  
Director  
NAHT Cymru

## UCAC – RESPONSE TO QUESTIONS NOT REACH ON 24 SEPTEMBER

**A oes gennych unrhyw farn am y darpariaethau gorfodol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r gwahanol drefniadau ar gyfer gwahanol gategoriâu o ysgolion? Pa heriau y gallai hyn eu hachosi i ysgolion â chymeriad crefyddol a fydd yn gorfod dylunio, ac o bosibl ddarparu, mwy nag un maes llafur (h.y. un o ran/yn unol â'r maes llafur y cytunwyd arno ac un yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau'r crefydd neu'r ffydd)**

Mae UCAC yn llwyr gefnogol i'r cynigion yn y Bil mewn perthynas â darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Rydym yn cydnabod y bydd gofynion ychwanegol ar ysgolion â chymeriad crefyddol yn yr ystyr y bydd angen iddynt ddylunio darpariaeth sy'n seiliedig ar y maes llafur cytunedig yn ogystal â darpariaeth 'enwadol' yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol.

Rydym yn cytuno y dylai bod gofyniad i gynnig darpariaeth sy'n seiliedig ar y maes llafur cytunedig ym mhob ysgol – p'un ai â chymeriad crefyddol ai peidio.

Er bod goblygiadau llwyth gwaith a threfniadaethol yn sgil y gofyniadau hyn, teimlwn bod hynny'n anorfod ac yn rhan annatod o statws ysgolion â chymeriad crefyddol.

Rydym eisoes wedi nodi pwysigrwydd sicrhau amser digyswllt digonol i athrawon i allu cyd-gynllunio'r cwricwlwm newydd, ac mi fyddai angen cymryd y gofyniadau uchod i ystyriaeth yn hynny o beth.

**A fydd angen hyfforddi neu gefnogi athrawon i sicrhau eu bod yn cynnig lluosogrwydd, eu bod yn feirniadol ac yn oddrychol wrth addysgu gwersi CGM?**

Byddai hyfforddiant i gefnogi athrawon yn bendant yn fuddiol yn y cyd-destun hwn, gan ei fod yn un o'r newidiadau sylfaenol i'r cwricwlwm newydd.

Nodwn yn ogystal ei fod yn bwnc sy'n aml iawn yn cael ei ddysgu gan athrawon sy'n arbenigwyr mewn pynciau a meysydd eraill ac felly o bosib heb dderbyn llawer o hyfforddiant penodol hyd yma (dros 27%, yn ôl ffigyrau Cyngor y Gweithlu Addysg yn 2016). Byddai'r drefn a'r Cod newydd yn cynnig cyfle i ddarparu hyfforddiant eang i sicrhau gweithredu cywir ac effeithiol yn y maes.

**Tystiolaeth atodol gan UCAC:**

**Yr heriau fyddai'n wynebu ysgolion cyfrwng Saesneg wrth weithredu'r continwmm iaith Gymraeg**

Noda'r Memorandwm Esboniadol (3.140), a dogfennau polisi eraill Llywodraeth Cymru bod: "gweddnewid y ffordd rydym yn addysgu'r Gymraeg i bob dysgwr, er mwyn i o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny allu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol, yn un o'r prif newidiadau gweddnewidiol y bydd eu hangen yn y sector addysg statudol er mwyn gwireddu'r weledigaeth".

Mae hwn yn nod uchelgeisiol a heriol, ac mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn un rhan allweddol o'r newidiadau fydd eu hangen i'w wireddu. Yn hynny o beth, mae gan Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) rôl ganolog i'w chwarae.

Yr hyn mae'r Bil yn ei wneud yn y cyd-destun hwn yw "...cael gwared ar y gwahaniaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng dwy raglen astudio – Cymraeg a Chymraeg ail iaith – a chaniatáu addysgu un continwmm ar gyfer dysgu Cymraeg ym mhob ysgol yng Nghymru, a hynny'n rhan o Faes Dysgu Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu." (Memorandwm Esboniadol, 3.140).

Er mor syml y gall y datganiad hwnnw ymddangos, mae'r newid y mae'n ei olygu yn ymarferol i ysgolion yn bellgyrhaeddol, ac yn arbennig felly i ysgolion cyfrwng Saesneg, fel y mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei gydnabod: "...disgwylir y bydd yr effaith ar ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy nag ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle'r Gymraeg yw prif iaith yr ysgol" (8.105). Golyga newidiadau sylfaenol i ddulliau dysgu, cynllunio, dilyniant, a datblygiad sylweddol o ran sgiliau ieithyddol ac addysgeg athrawon a staff cymorth dysgu. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod nad oedd "y mwyafrif helaeth [o ysgolion gafodd eu cyfweld] yn glir ynghylch faint o ddysgu proffesiynol y byddai ei angen ar lefel unigol" (8.272) er bod disgwylid ar hyn o bryd i ddatblygu cynlluniau i feithrin sgiliau o ran y Gymraeg. Â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ymlaen i nodi: "... roedd llawer o'r farn nad oedd digon o amser na blaenoriaeth yn cael eu rhoi i'r Gymraeg gan arweinwyr mewn amserlenni ysgol a chynlluniau dysgu proffesiynol" (8.275). Awgryma hyn yn gryf na ellid gadael y broses o drosglwyddo i'r system a'r dulliau newydd i ddisgresiwn ysgolion unigol, ond bod angen canllaw clir ynghylch yr hyn sy'n ddisgwylid dros y tymor byr, canolig a hir, o ran camau gweithredu a deilliannau.

Nid yw'r Bil yn cyfeirio at y cyd-destun strategol ehangach sy'n greiddiol i weithredu'r newidiadau hyn – er enghraifft y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a'r newidiadau strwythurol y mae disgwyl i ysgolion eu gwneud, dros gyfnod, i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a thrwy hynny i gynyddu lefelau medrusrwydd cyfathrebu a rhuglder. Mae diffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn greiddiol yn y cyd-destun hwn gan ei fod yn creu fframwaith ar gyfer cynnydd a dilyniant i ysgolion. Rydym yn derbyn na fyddai'n briodol i'r Bil fynd i'r lefel honno o fanylder; ni fyddai'n cydweddu â natur 'fframwaith' y Bil penodol hwn. Fodd bynnag, mewn gwrthgyferbyniad clir iawn gyda'r prif newidiadau polisi eraill y mae'r cwricwlwm yn eu cyflwyno, nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw god, canllaw nac is-ddeddfwriaeth fyddai'n ymhelaethu ar oblygiadau'r newidiadau hyn i ysgolion.

Yn Rhan 1, mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwneud tri chod i fynd i'r afael â materion penodol mewn mwy o fanylder nag y byddai'n briodol ar wyneb y Bil, sef Cod yr Hyn sy'n Bwysig (6); Cod Cynnydd (7); a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (8).

**Er mwyn i ysgolion (yn ogystal ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ac eraill o fewn y system addysg), gael dealltwriaeth glir o'r disgwylidau, a'r daith sydd o'u blaenau mewn perthynas â'r Gymraeg yn y cwricwlwm newydd, rydym yn cymhell yn gryf y dylid gwneud gwelliant i'r Bil sy'n darparu ar gyfer gwneud Cod Addysg Gymraeg.**

Mi fyddai'n angenrheidiol bod y Cod hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at y ddogfen arfaethedig ynghylch diffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac felly'n rhoi statws statudol i'r diffiniadau. Fel arall, mi fydd angen sicrhau sail statudol arall i'r diffiniadau, a hynny yn unol â'r ymrwymiad yn y Papur Gwyn yn 2019 i ddarparu "pŵer i Weinidogion Cymru a fydd yn caniatáu iddynt ragnodi'r diffiniadau ar gyfer y categorïau iaith ysgolion drwy is-ddeddfwriaeth" (t.35).

Er bod rhywfaint o wybodaeth yn sgil canllawiau'r cwricwlwm ym Maes Dysgu a Phrofiad 'leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu', ac er y tybiwn y cynigir rhywfaint o fanylder ynghylch cynnydd a dilyniant disgyblion yn y Cod Cynnydd, rydym yn argyhoeddedig na fydd hyn yn ddigonol i ganiatáu'r math o flaengynllunio fydd yn angenrheidiol i sicrhau gweithredu effeithiol mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai creu Cod Addysg Gymraeg yn rhoi sicrwydd diamheuol i'r sector addysg drwyddi draw ynghylch y bwriad o ran y cwricwlwm, a hynny oddi fewn i gyd-destun strategol ehangach bwriadau polisi Llywodraeth Cymru, ac yn rhoi canllaw gweithredu clir.

**30 Hydref 2020**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Aled Roberts**  
Comisiynydd y Gymraeg  
[Welsh Language Commissioner](#)

**Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner**

Lynne Neagle AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
[SeneddPPIA@senedd.cymru](mailto:SeneddPPIA@senedd.cymru)

21/10/2020

Annwyl Gadeirydd,

### **Tystiolaeth ar Fil y Cwricwlwm ac Aseu (Cymru)**

Fel y gwyddoch, yn fy nhystiolaeth i'r pwyllgor ar 8 Hydref 2020 fe wnes i drafod y potensial o gynnwys darpariaethau ym mil y cwricwlwm ar gyfer gosod sail statudol i gategoriâu ieithyddol ysgolion. Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Gweinidog Addysg ar 21 Hydref 2020 fe gadarnhaodd y Gweinidog na fydd y Bil yn cynnwys darpariaeth o'r fath, ac y byddai'r Llywodraeth yn ymgynghori ar drefniadau categoreiddio ieithyddol ysgolion ar sail anstatudol cyn diwedd y flwyddyn.

Un o'r prif resymau dros ddiwygio'r categorïau ieithyddol yn y lle cyntaf oedd er mwyn symud oddi wrth y drefn anstatudol bresennol a'u gosod ar sail statudol. Fel rwyf yn egluro yn fy ymateb ysgrifenedig i ymgynghoriad y Pwyllgor ar Fil y Cwricwlwm, nid yn unig mae'r categorïau ieithyddol yn hanfodol at bwrpas trefniadaeth cwricwlwm, ond hefyd o ran cyflawni strategaeth addysg Gymraeg mwy cyffredinol y Llywodraeth, yn benodol o ran Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Bydd gosod y fframwaith hwn ar sail anstatudol yn tanseilio arwyddocâd strategol y categorïau hyn oherwydd ni fydd unrhyw sail statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn dilyn y drefn arfaethedig yn gywir, a dyna wrth gwrs yw rhan o'r broblem bresennol.

Yn ôl y Gweinidog y rheswm dros y penderfyniad hwn yw mai mater yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion yn hytrach na'r cwricwlwm yw categorïau ieithyddol, a hefyd nad yw amserlen y gwaith o ddatblygu'r categorïau yn cyd-fynd ag amserlen cyflwyno Bil y Cwricwlwm. Nid yw'n glir i mi pam fod y rhesymau hyn yn atal y Llywodraeth rhag cynnwys darpariaeth i lunio rheoliadau ym Mil y Cwricwlwm. Yn gyntaf, er fy mod yn derbyn fod

**Comisiynydd y Gymraeg**  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

**Welsh Language Commissioner**  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)  
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

0345 6033 221  
[post@welshlanguagecommissioner.wales](mailto:post@welshlanguagecommissioner.wales)  
**Correspondence welcomed in Welsh and English**





categoriadau ieithyddol ysgolion yn fater ehangach na'r cwricwlwm yn unig, mae'r categorïau ieithyddol hyn yn ganolog i faterion yn ymwneud â chynllunio cwricwlwm a threfniadaeth ysgolion o safbwynt addysgu a defnyddio'r Gymraeg. Gwnaed y pwynt hwn gan y Llywodraeth ei hun yn ystod cyflwyno papur gwyn ar ddeddfwriaeth y cwricwlwm nôl yn 2019. Pwysleisiwn hefyd bod canllaw'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ac mae'n debygol felly y Cod Cynnydd yn ogystal) yn cyfeirio at ysgolion mewn categorïau ieithyddol gwahanol. O ran amserlen, mae'r Gweinidog wedi cadarnhau y bydd ymgynghori ar y categorïau hyn yn digwydd cyn diwedd y flwyddyn, ac nid yw'n glir pam na all unrhyw reoliadau gael eu cyflwyno yn ddiweddarach. Hynny yw, gall Bil y Cwricwlwm gynnwys darpariaeth ar gyfer llunio rheoliadau, a gall y gwaith o lunio'r rheoliadau ddigwydd wedi'r broses ymgynghori ar y drefn gategoreiddio newydd.

Rwyf hefyd yn awyddus i ymateb yn gryno i bwynt arall pwysig a wnaethpwyd gan y Gweinidog wrth ymateb i gwestiynau ynglŷn â'r gwaith o ddiddymu Cymraeg ail-iaith a llunio un continwmm ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Fe ddywedodd ei bod o'r farn bod llawer o fanylder eisoes yn y canllawiau ar gyfer y MDaPH Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu o ran disgwyliadau ar ddysgwyr ac o ran cynnydd, ac y byddai gan y Llywodraeth ddiddordeb cael mwy o fanylder ynglŷn â'r hyn rydym yn honni sydd ar goll o'r Bil a'r canllawiau presennol. Yn y cyd-destun hwn, mae ein hymateb ysgrifenedig i ymgynghoriad y pwyllgor, a'n hymateb i gwestiwn 6.1 yn benodol, yn egluro fy safbwynt ar gynnwys y canllawiau.

Yn fy marn i, nid oes unrhyw waith arwyddocaol, ymarferol na phenodol wedi'i gyhoeddi ynglŷn â'r continwmm iaith Gymraeg, a sut y bydd, dros gyfnod o amser, yn arwain at godi safonau Cymraeg ar draws ysgolion Cymru. Rwy'n cefnogi'r weledigaeth i ddiddymu Cymraeg ail iaith, ond heb gyfarwyddyd pellach rwy'n pryderu y byddwn i bob pwrpas yn ail-adrodd methiannau'r gorffennol, ac y bydd y system addysg yng Nghymru yn parhau i amddifadu rhan helaeth ein pobl ifanc o'r gallu i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Rwyf wir yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn methu ar gyfle euraid ym Mil y Cwricwlwm i ddod ag un o amcanion craidd strategaeth Cymraeg 2050 yn fyw, sef sicrhau bod gan bob disgybl yng Nghymru'r cyfle i ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus.

Rwy'n derbyn yn llwyr ddadl y Gweinidog y bydd gwireddu'r cwricwlwm hwn o safbwynt y Gymraeg yn gofyn am ymyraethau polisi mwy eang, yn benodol ym maes hyfforddi a datblygu proffesiynol athrawon. Ond mae hynny yn wir am bob agwedd o'r cwricwlwm wrth gwrs, ac nid yw'n ddadl dros beidio â chynnwys mwy o fanylder yn y Bil neu mewn cod statudol. Mae'n amlwg i mi mai Bil y cwricwlwm ddylai fod yn arwain ac yn dangos y ffordd yn y cyd-destun hwn, gan osod disgwyliadau a chyfeiriad diamwys i'r sector addysg yn ei gyfanrwydd.

Mae'n amlwg fod gan y Gweinidog weledigaeth glodwiw i'r Gymraeg yn y sector addysg statudol, ond mae angen gweithredu pellach er mwyn ei wireddu. I fod yn gwbl eglur, nid wyf yn feirniadol o'r cwricwlwm arfaethedig tel man cychwyn ar gyfer dysgwyr mewn



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

ysgolion cyfrwng Saesneg, ond yn hytrach bod angen gweledigaeth a fframwaith hir dymor i fodoli ochr yn ochr â hyn. Byddai cod statudol fyddai'n cael ei gyhoeddi yn sgil Bil y Cwricwlwm yn gallu cyflawni hyn, a byddai'n gosod mecanwaith deddfwriaethol er mwyn codi disgwyliadau a safonau yn raddol, a hynny wrth weithio tuag at dargedau hir-dymor Cymraeg 2050. Ni fyddai angen i'r cod hwn fod yn ei le erbyn diwedd cyfnod y Llywodraeth hwn a byddai'r cyfnod cyn y daw'r cwricwlwm i rym yn caniatáu amser i ddatblygu a mirenio cynnwys y cod. Buasai'n ddefnyddiol dod ag arbenigwyr ynghyd i'w ddatblygu, a hynny o bosib ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer y Gymraeg.

Anogaf y Pwyllgor i ystyried yn ddwys yr effaith gadarnhaol ar genedlaethau o ddisgyblion Cymru a ddeuai o gyflwyno'r gofyniad am god addysgu'r Gymraeg, a rheoliadau categorïau ieithyddol statudol fel rhan o Fil Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Oni wneir hynny, ofnaf na fydd sefyllfa'r Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgu ddim gwell nag ydyw ar hyn o bryd, ac y bydd cenedlaethau yn rhagor o ddisgyblion yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i fod yn ddwyieithog.

Yn gywir,

**Aled Roberts**  
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at:

Kirsty Williams, Y Gweinidog Addysg - Gohebiaeth:.Kirsty.Williams@gov.wales



## Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

**Date / Dyddiad: 28 Hydref 2020**

**Subject / Pwnc: Cwestiynau Ychwanegol gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd mewn perthynas â Chyfnod 1 y craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu.**

### Gwybodaeth Gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Senedd Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw CCUHP sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer yr holl bolisiau sy'n cael eu llunio ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

### Cyd-destun yr Ymateb

Cyflwynodd y Comisiynydd Plant dystiolaeth fanwl [ysgrifenedig](#) a [llafar](#) i Gyfnod 1 y craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu. Cyflwynir y dystiolaeth hon mewn ymateb i gwestiynau ychwanegol gan y Pwyllgor ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE).

### Cwestiynau Ychwanegol ar gyfer y Comisiynydd Plant

- a yw hi'n ymwybodol i ba raddau mae plant yn cael eu tynnu allan o addysg rhyw a chrefyddol yng Nghymru o dan y trefniadau presennol;

- y dystiolaeth sy'n sylfaen ar gyfer y pryderon mae hi wedi'u mynegi ynghylch pa mor amryfath yw'r ddarpariaeth addysg grefyddol bresennol yn ysgolion Cymru a pha mor amryfath mae RVE enwadol yn debygol o fod o dan y cwricwlwm newydd.

### **Crynodeb safbwynt mewn perthynas â'r ddau faes dan sylw (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE)).**

Nid oes gen i bryderon ynghylch y darpariaethau yn y Bil mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. **Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwneud RSE yn orfodol yn y Bil yn cael fy nghefnogaeth lawn** a bydd yn helpu i wireddu darpariaethau CCUHP, y mae gan holl blant Cymru hawl i'w derbyn.

Mae gen i bryderon sylweddol ynghylch y ddarpariaeth yn y Bil yng nghyswllt Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn perthynas â lleoliadau crefyddol eu natur. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cydymffurfio â CCUHP, ac mewn gwirionedd maent yn gwbl groes iddo. Y rheswm am hynny yw bod darpariaethau'r Bil hwn yn golygu na fydd plant mewn lleoliadau ffydd o reidrwydd yn cael mynediad at addysg amryfath yn unol â gofynion hawliau dynol o dan CCUHP<sup>1</sup>; yn ail, oherwydd bod eu rhieni yn gallu penderfynu ar y cwricwlwm RVE maen nhw'n ei brofi. I unioni hyn **mae'n rhaid gwneud newid i Atodlen 1 o'r Bil.**

#### **I ba raddau mae plant yn cael eu tynnu allan o dan y trefniadau presennol.**

Does gen i ddim gwybodaeth ynghylch i ba raddau mae plant a phobl ifanc yn cael eu tynnu allan o RSE neu RVE o dan y trefniadau presennol. Ni chafodd yr wybodaeth hon ei chynnwys yn yr asesiad effaith<sup>2</sup> oedd yn cyd-fynd ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2019) ynghylch sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn, ac nid yw chwaith wedi cael ei chynnwys mewn asesiadau eraill o'r newid deddfwriaethol hwn. Byddai angen i'r Pwyllgor geisio'r wybodaeth hon gan awdurdodau lleol neu gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, hyd yn oed os yw niferoedd y plant sy'n cael eu tynnu allan ar hyn o bryd yn isel iawn, mae hynny'n dal i olygu bod y plant hynny **ddim yn derbyn addysg sy'n unol â'u hawliau o dan CCUHP.** Pan gaiff plant eu tynnu allan o RSE mae'n golygu eu bod nhw ddim yn cael mynediad at wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn iddyn nhw wneud dewisiadau diogel, gwybodus am eu bywydau eu hunain. Pan gaiff plant eu tynnu allan o RVE amryfath, dydyn nhw ddim yn cael cyfle i ddatblygu eu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau ffydd a ffyrdd o edrych ar y byd, a fyddan nhw ddim yn cael cyfleoedd wedi'u hwyluso i archwilio a herio safbwyntiau y gallan nhw ddod ar eu traws mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol, ar-lein ac all-lein. Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb llawn i Gyfnod 1 y craffu, mae sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn i bawb yn y ddau faes yma yn angenrheidrwydd o safbwynt diogelu yn ogystal ag addysg. Ddylen ni ddim teimlo'n gyfforddus yn caniatáu i ddeddfwriaeth ddod i rym sy'n cynnwys darpariaeth unffurf ynghylch natur grefyddol lleoliadau, nad yw'n cymryd hawliau plant unigol i ystyriaeth, ac a allai atal rhai plant rhag cael mynediad i'r addysg hon.

<sup>1</sup>[https://www.ohchr.org/EN/Issues/Education/Training/Compilation/Pages/a\)GeneralCommentNo1TheAimsofEducation\(article29\)\(2001\).aspx](https://www.ohchr.org/EN/Issues/Education/Training/Compilation/Pages/a)GeneralCommentNo1TheAimsofEducation(article29)(2001).aspx)

<sup>2</sup><https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-10/integrated-impact-assessment-ensuring-access-to-the-full-curriculum.pdf>

Bydd y Bil hwn yn sefydlu'r pethau bydd gan blant a phobl ifanc hawl i'w profi trwy addysg yng Nghymru. Ni fydd deddfwriaeth ar ei phen ei hun yn gwireddu'r hawliau hynny, daw hynny pan fyddan nhw'n cael eu gweithredu – ond mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru, o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i sicrhau bod yr hawliau hyn yn golygu bod modd gwireddu hawliau. Yn sicr dylen nhw ddim cynnwys darpariaeth sy'n gallu atal rhai plant rhag derbyn eu hawliau, ac o ganlyniad mae angen newid Atodlen 1 i sicrhau bod plant ym mhob lleoliad yn derbyn RVE amryfath.

**Tystiolaeth sy'n sylfaen ar gyfer pryderon ynghylch pa mor amryfath yw'r ddarpariaeth addysg grefyddol bresennol yn ysgolion Cymru a pha mor amryfath mae RVE enwadol yn debygol o fod o dan y cwricwlwm newydd.**

Bydd y Bil yn gwella natur amryfath addysg grefyddol yn ysgolion Cymru nad ydynt yn grefyddol eu natur. Mae hynny'n wir oherwydd bod y gyfraith bresennol yn galluogi plant a phobl ifanc mewn ysgolion sydd heb natur grefyddol i dderbyn darpariaeth enwadol o dan rai amgylchiadau, fel y nodir yn Atodlen 19 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Bydd hyn yn cael ei ddileu o dan y Bil, ac rwy'n croesawu hynny.

Fodd bynnag, os caiff y Bil ei basio heb newid Atodlen 1, bydd y Senedd wedi pasio Bil sy'n galluogi rhai ysgolion (ysgolion gwirfoddol gymorthedig crefyddol eu natur) i fod â chwricwlwm RVE diofyn nad oes angen iddo roi sylw i'r Maes Llafur Cytunedig, ac nad yw felly o reidrwydd yn amryfath. Mae hefyd yn gofyn bod ysgolion eraill (ysgolion sylfaen ac ysgolion gwirfoddol reoledig crefyddol eu natur) i gynnig cwricwlwm sy'n cyd-fynd â gweithredoedd yr ymddiriedolaeth neu sylfeini'r ffydd, os bydd rhiant yn mynnu hynny.

Y brif dystiolaeth, felly, sy'n sylfaen ar gyfer fy mhryderon yw'r ddeddfwriaeth ddrafft ei hun. Rhagwelir y bydd y Bil Cwricwlwm ac Asesu yn parhau'n rhan o'r ddeddfwriaeth am gryn amser, ac mae eleni yn unig wedi atgyfnerthu na allwn ragweld newid cymdeithasol yn gywir. Ar y sail honno, ni ddylai Bil gael ei basio gyda chynigion sydd, yn ogystal â methu â chynnal darpariaethau CCUHP o ran cyfranogiad, addysg a chydarddoldeb, hefyd yn methu â rhoi sylw i rôl ddiogelu addysg grefyddol amryfath wrth greu cymunedau cydlynus o fewn a'r tu allan i'r lleoliad addysg. Byddai hyn yn tanseilio agenda PREVENT, dull seiliedig ar gydraddoldeb o ymdrin ag addysg gwrthfwlio, ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Daw fy nhystiolaeth eilaidd ar gyfer y pryder yma o'r cyd-destun yr ydym ni'n byw ynddo ar hyn o bryd. Er nad oes gen i ddata ynghylch i ba raddau mae RVE amryfath eisoes yn cael ei darparu, mae digonedd o ddata sy'n dangos y rheidrwydd i gynyddu mynediad at RVE amryfath, yn hytrach na lleihau hynny. Ar lefel genedlaethol, mae'n rhaid i ni fanteisio ar bob cyfle addysgiadol sydd ar gael i ymateb i gamwahaniaethu a bwlio, a hefyd i radicaleiddio o bob math, gan gynnwys agweddau adain dde dwfn ac eithafol. Fel y gwelwyd mewn achosion a gyhoeddwyd yn enghreifftiau o'r rhaglen PREVENT<sup>3</sup> yng Nghymru, mae syniadaeth adain dde ddofn ac eithafol yn cael effaith ar farn plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae ymchwil

<sup>3</sup> <https://www.gwent.police.uk/cy/cyngor/cyngor/t-z-terfysgaeth-tystion-trosedd/terfysgaeth/prevent//>

gan yr elusen Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth<sup>4</sup> yn 2020 yn dangos bod digwyddiadau hiliol cysylltiedig â ffydd yn digwydd yn aml mewn ysgolion yng Nghymru ac y gallen nhw fod yn cynyddu. Mewn arolwg o 1,058 o athrawon yng Nghymru, dywedodd 39% o'r ymatebwyr fod eu disgyblion wedi mynegi camgymeriadau neu stereoteipiau yn ymwneud â chrefydd, ac roedd 25% wedi ymateb i ddigwyddiad hiliol yn ystod y mis diwethaf. O'r 1,058 o athrawon, dewisodd 159 ychwanegu sylwadau ychwanegol, ac o'r rheiny, disgrifiodd 66% (105) ymddygiad neu fynegiant gwrth-Islamaidd yn eu cymunedau dysgu, a chododd 12.6% (19) faterion cysylltiedig â gwrth-Semitiaeth. Mae hyn yn werth ei nodi, gan na soniwyd o gwbl am wrth-Semitiaeth mewn arolwg blaenorol<sup>5</sup> a gynhaliwyd gan yr elusen yn 2016.

Mae'r gwaith ymchwil yma'n adleisio sawl canfyddiad mewn adroddiad yn 2018, *Experience of Race and Racism in Schools in Wales*<sup>6</sup>, a luniwyd ar y cyd gan sefydliadau cydraddoldeb Cymru mewn cydweithrediad. Mae'r adroddiad hwnnw'n dangos bod rhai plant a phobl ifanc yng Nghymru yn profi hiliaeth yn feunyddiol oherwydd eu crefydd, ac mae'n amlygu agweddau ar effaith ddofn hynny ar lesiant plant a'u profiad o addysg. Mae'n cynnwys hanes am ferch ifanc y bu un o'i chyfoedion yn tynnu ei hijab i ffwrdd yn arw a'i dehongliad hithau bod angen i'w hysgol roi sylw i hynny nid trwy ddisgyblaeth yn unig, ond trwy ddatblygu dealltwriaeth o'i chrefydd ymhlith ei chyfoedion. Mae'r awydd hwn yn cael ei ategu ar hyd yr adroddiad, gyda phlant a phobl ifanc yn mynegi'r angen am addysg ychwanegol ynghylch crefydd er mwyn datblygu dealltwriaeth rhwng cymunedau ffydd ac ar eu traws.

Dylid ystyried mater cynrychiolaeth yn ogystal: mae llawer o blant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion crefyddol eu natur yn dod o gefndir ffydd nad yw yr un fath â'r ffydd a adlewyrchir yn naliadau neu weithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol. Rhaid sicrhau nad yw profiadau a hunaniaeth grefyddol y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu cau allan o faes llafur yr ysgol, a gofyniad bod pob plentyn yn derbyn profiad dysgu amryfath yw'r unig ffordd o sicrhau hynny – fel arall bydd yn fater o siawns a dewis rhieni unigol.

Yn olaf, mae fy nhystiolaeth bod angen rhoi sylw i hyn wedi'i seilio ar CCUHP ei hun. Mae'n rhaid newid Atodlen 1 i sicrhau bod gofynion amryfath yn berthnasol i addysg ym mhob lleoliad, a bod gallu rhieni i benderfynu pa fath o RVE mae eu plentyn yn ei derbyn yn cael ei ddileu, gan nad yw hynny'n cyd-fynd â hawliau dynol plant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau a fydd yn newid eu bywyd eu hunain (Erthygl 12); na chwaith yn gyson â hawl ddynol plant i gael addysg gyfannol sy'n hybu dealltwriaeth 'ymhlith yr holl bobloedd, grwpiau ethnig, cenedlaethol a chrefyddol, a phersonau brodorol eu tarddiad' (Erthygl 29).

### **Newid ychwanegol i sicrhau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

---

<sup>4</sup> [Hiliaeth yng Nghymru: archwilio rhagfarn yn y system addysg yng Nghymru, Mai 2020](#)

<sup>5</sup> Racism and Anti-racism in the Welsh Education System: Research Report September 2016, Show Racism the Red Card

<sup>6</sup> <http://eyst.org.uk/assets/experiences-of-racism-and-race-in-schools-in-wales.pdf>

Er nad yw'n rhan uniongyrchol o'r ddau gwestiwn, byddwn hefyd yn hoffi amlygu un newid ychwanegol i'r Bill a fydd yn helpu i ddiogelu'r ddarpariaeth sydd yn y Bil ar gyfer RSE. **Rwy'n pryderu am bŵer Gweinidogion o dan adran 5 o'r Bil i greu Rheoliadau ar gyfer ychwanegu, dileu neu ddiwygio'r meysydd dysgu a phrofiad a nodwyd, yr elfennau gorfodol, a'r sgiliau trawsgwricwlaidd.**

Rwy'n pryderu y gallai hyn greu risg ar gyfer rhai Meysydd Dysgu a Phrofiad ac elfennau eraill gorfodol sydd heb ennill eu plwyf i'r fath raddau. Gallai elfen orfodol RSE fod yn arbennig o agored i fympwy newidiadau a heriau gwleidyddol.

Fel sy'n ofynnol o dan 'Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011', mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hawliau plant ac wedi sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori yn y Bil. Drwy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 52**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gydymffurfio â'r dyletswyddau yn y Bil, bydd ymarferwyr yn rhoi'r hawliau a ddisgrifir yn y Confensiwn ar waith. Mae'r Bil, ar ei ffurf bresennol, yn mabwysiadu dull gweithredu y bwriedir iddo sicrhau y caiff buddiannau unigolion eu diogelu; gwneir hyn drwy osod dyletswyddau manwl.

Ni fyddai gosod dyletswydd gyffredinol ar bersonau neu gyrff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil i roi sylw dyledus i CCUHP, ynddo'i hun, yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Ni fyddai'n gwarantu cam na chanlyniad penodol ac, yn ymarferol, gallai gael yr effaith groes a gweithio yn erbyn nodau dyletswydd o'r fath sy'n llawn bwriadau da. Byddai hefyd yn creu maes newydd o ymglyfreitha posibl ac rydym yn amau y byddai ymglyfreitha o'r fath yn canolbwyntio ar fethiant gweithdrefnol ar ran awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu. Gallai rhai heriau cyfreithiol lwyddo ar y sail honno, ond unwaith eto, o ystyried y ddyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP, mae'n amheus a fyddai hyn yn arwain at unrhyw newid cadarnhaol ar lawr gwlad i blant. Yn ein barn ni, bydd gosod dyletswyddau uniongyrchol, wedi'u llunio yng nghyd-destun dyletswydd Gweinidogion Cymru eu hunain, i roi sylw dyledus i CCUHP, yn gwella canlyniadau ac yn sicrhau mwy o atebolrwydd.

Petaem yn gosod dyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP yn uniongyrchol ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil, mae risg y byddem yn tynnu sylw ymarferwyr rheng flaen oddi ar y gwaith o gefnogi dysgwyr drwy greu haenau o fiwrocratiaeth – byddai'n rhaid i athrawon, ysgolion a chyrrff llywodraethu ddangos eu bod wedi ystyried y Confensiwn wrth ryngweithio â phob plentyn a pherson ifanc, ac mae'n amheus y byddai'n sicrhau canlyniadau 'gwell' amlwg i blant. Dyletswyddau penodol ac ymarferol ar gyrff cyhoeddus fydd yn gwella canlyniadau, a dyma'r dull gweithredu rydym wedi'i fabwysiadu yn y Bil. Er enghraifft, mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â dewis disgybl a'r pŵer a roddir i benaethiaid benderfynu nad yw'r ddyletswydd i sicrhau dysgu ac addysgu yn gymwys. Mae'r darpariaethau'n nodi, yn gyntaf, yr amgylchiadau penodol lle y gall pennaeth wneud penderfyniad o'r fath (adran 33). Mae'r seiliau hyn wedi cael eu datblygu a'u llunio gan Weinidogion Cymru, ac ystyrir eu bod yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng hawl y disgybl i ddewis yr hyn y bydd yn ei astudio a'r ddyletswydd ar y pennaeth i lunio cwricwlwm a'i roi ar waith yn effeithiol yn unol â gofynion y Bil. Wedyn, mae'n rhaid i'r pennaeth roi gwybodaeth fanwl i'r disgybl dan sylw am y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw (adran 34). Mae system adolygu a system apelio ar gael i'r disgybl dan sylw a'r rhiant, a rhoddir gwybodaeth am y penderfyniadau i'r disgybl dan sylw (adran 35). At hynny, gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn unol â'r pwerau yn adrannau 34 a 35, a byddai ganddynt ddyletswydd i roi sylw i CCUHP wrth wneud y rheoliadau hynny. Mae hon yn enghraifft o swyddogaethau a osodir yn benodol ar benaethiaid a chyrrff llywodraethu lle mae'r darpariaethau'n nodi proses deg a thryloyw sy'n rhoi sylw dyledus i hawliau plant, ac yn eu parchu.

O dan y Bil, bydd Cod yr Hyn sy'n Bwysig (adran 6) yn nodi'r cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad (adran 3). Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym MDaPh y Dyniaethau, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn cynnwys yr angen i ddysgwyr ddeall eu hawliau ac ymgysylltu â'r cysyniad o hawliau yn fwy cyffredinol. Byddem yn disgwyl i hyn fod yn rhan orfodol o gwricwlwm pob ysgol. Gan gefnogi hyn, mae'r Cwricwlwm arfaethedig i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn rhoi canllawiau clir ynglŷn â dysgu ac addysg ym maes hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau penodol at hawliau plant a CCUHP, ac fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad agos â Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Yn unol ag adran 66, bydd yn rhaid i benaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion lunio cwricwlwm sy'n cynnwys dysgu am hawliau plant a CCUHP, ei fabwysiadu a'i roi ar waith.

## **Gwelliannau Cyfnod 2 – Saesneg**

Rwy'n cynnal ymgynghoriad byr ynghylch elfen orfodol Saesneg yn y Bil. Byddaf yn cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn yn fuan, er mwyn sicrhau fy mod wedi ystyried yr amrywiaeth ehangaf o safbwyntiau ar y mater hwn cyn i Gam 2 ddechrau. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, mae'n bosibl y byddaf yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn gwneud Saesneg yn orfodol o 7 oed. Mae hyn yn golygu y bydd Saesneg yn ddewisol i bob ysgol cyn 7 oed. Byddai hyn yn cysoni'r Bil â'r Cyfnod Sylfaen presennol a'i seiliau i ddatblygiad plentyn, sy'n nodi bod pynciau ffurfiol yn fwy priodol o 7 oed ymlaen ac y dylai dysgu fod yn arbrolfol cyn hynny. Fodd bynnag, bydd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gymwys o hyd er mwyn rheoleiddio newidiadau o ran yr iaith addysgu mewn ysgolion.

Bydd y Gymraeg yn dal i fod yn orfodol o 3 oed.

Mae hyn yn golygu y bydd yn bosibl parhau i drochi dysgwyr yn y Gymraeg a bydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chydabod yn briodol yng nghwricwla ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn trochi eu dysgwyr yn y Gymraeg. Mae hyn hefyd yn unol â'r Cyfnod Sylfaen presennol lle mae ysgolion yn cyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg ond lle mae hefyd yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud hynny yn Saesneg gyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Datblygu'r Gymraeg.

## **Costau amcangyfrifedig**

Gwahoddwyd nifer o randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol er mwyn llywio'r costau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyflwynwyd i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020.

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr o'r sector Addysg Bellach ym mis Awst 2020 a rannodd safbwyntiau ar yr effaith bosibl ar y system addysg ôl-16. Gellir grwpio'r rhain fel a ganlyn:

- goblygiadau ariannol i hyfforddiant yn y sector ôl-16;
- yr angen posibl am oriau addysgu ychwanegol mewn rhai pynciau os na cheir meysydd penodol o wybodaeth o'r cwricwlwm gorfodol newydd;
- yr angen i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y sector AB, er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen cwblhau gweithgareddau pontio hefyd er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr eu paratoi'n effeithiol i ddilyn cyrsiau ôl-16 ar gyfer pynciau penodol.

Mae Colegau Cymru yn cydnabod nad yw'r materion hyn o reidrwydd yn rhan o gwmpas ariannol y Bil sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm gorfodol ond maent o'r farn y bydd angen ystyried y costau hyn er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn llwyddo i gyflawni ei nodau, ac mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi costau posibl i gyrff dyfarnu a fydd yn deillio o newid cymwysterau, a sut y gallai'r rhain effeithio ar ganolfannau arholi. Byddwch yn ymwybodol o'r ffaith bod y sefyllfa bresennol o ran arholiadau a achoswyd gan y pandemig yn golygu bod yr ymarfer hwn yn anodd iawn. Mae Cymwysterau Cymru yn cynnal ymgynghoriad pellach ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar ddechrau 2021 o dan y teitl Yn Gymwys ar gyfer y Dyfodol. Wrth i'w waith ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd fynd rhagddo, bydd cynigion yn destun Asesiad Effaith

Rheoleiddiol, a chaiff unrhyw gostau i gyrff dyfarnu, ysgolion a rhannau eraill o'r sector sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau newydd, eu hystyried yn fanwl.

Rydym wedi cytuno ar gyllid i'r Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig i'w galluogi i ddatblygu canllawiau i gefnogi'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Maent yn honni y byddai'r gofynion iddynt gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig ac Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn golygu costau ac adnoddau ychwanegol i'w hysgolion. Mae gwaith ar y mater hwn yn parhau er mwyn sicrhau bod y gofynion i ysgolion â nodweddion crefyddol gyflwyno pob un o'r ddau faes llafur gofynnol yn briodol. Caiff unrhyw gostau ariannol eu talu o gyllidebau sydd wedi'u neilltuo i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi'u nodi gan CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwr Addysg Cymru, Consortia Rhanbarthol, darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon, Estyn na Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC).

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid er mwyn nodi'r uchod yn fanylach.

Cwestiynau:

### **Dull gweithredu'r Bil**

- ◆ *A ydych yn parhau yn gwbl hyderus mai'r dull y mae'r Bil yn ei osod ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddarparu lefel uchel o hyblygrwydd i ysgolion a disgresiwn i benaethiaid drwy roi terfyn ar gwricwlwm cenedlaethol sydd wedi'i ragnodi'n drwm, yw'r ffordd orau o wella ysgolion a chodi safonau yn gyffredinol? Rydych wedi tynnu sylw at ddiffygion y system bresennol fel rhan o'r rheswm dros newid, ond sut gallwch fod yn sicr y bydd y math penodol hwn o newid yn gwella, yn hytrach na'n gwaethygu, safonau a pherfformiad ysgolion?*

Mae'n hanfodol deall hyblygrwydd ysgolion yn ei gyd-destun. Wrth gwrs, mae'r Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion am y bydd yn ofynnol iddynt lunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Fy mwriad yw y bydd hyn yn grymuso ysgolion ac ymarferwyr i gyflwyno'r hyn sy'n briodol i'w dysgwyr, gan ddefnyddio eu barn broffesiynol eu hunain, yng nghyd-destun eu cymunedau lleol. Fodd bynnag, mae'r Bil a chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru gyda'i gilydd yn sefydlu fframwaith cadarn lle y bydd angen i ysgolion weithredu. Bydd Cod yr Hyn Sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd, y mae'r ddau ohonynt yn orfodol, yn nodi'n glir y cysyniadau allweddol ar gyfer dysgu a chynnydd, sydd eisoes wedi'u cyfleu yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Mewn llawer o feysydd, bydd canllawiau manwl i gefnogi hyn: er enghraifft, mae "Dylunio eich Cwricwlwm" yn rhoi cymorth manwl i ysgolion o ran sut i ddewis pynciau a dysgu penodol. Mae'r fframwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch o fewn y system a chysondeb rhwng pob rhan ohoni, gan gynnwys er mwyn cau'r bwloch cyrhaeddiad a gwella safonau. Wrth gwrs, ceir hanfodion y mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o gwricwlwm pob ysgol. Er enghraifft, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn nodi'r cysyniadau allweddol sydd wrth wraidd pob math o ddysgu. Drwy ddisgrifiadau o ddysgu, mae'r canllawiau'n nodi'r hanfodion a fydd yn galluogi pob dysgwyr i wneud cynnydd.

Er y bydd y fframwaith hwn yn nodi'r hanfodion hyn, nid yw'n rhagnodi pa bynciau a gweithgareddau penodol y dylid eu haddysgu, na phryd. Nid yw'n darparu cynnyrch 'parod'



y gellir ei gyflwyno, ac ni ddylai wneud hynny. Yn lle hynny, mae ein dull gweithredu newydd yn cydnabod y canlynol:

- o fewn y fframwaith cenedlaethol, ysgolion ac ymarferwyr sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion eu dysgwyr penodol, gan gynnwys pa bynciau a gweithgareddau fyddai orau i gefnogi eu dysgu;
- pwysigrwydd dysgu ystyrion. Nid yw cwricwlwm rhagnodol sy'n canolbwyntio ar ymdrin â phynciau yn gwarantu dysgu ystyrion, dim ond yr ymdrinnir â phynciau penodol i wahanol raddau. Yn hytrach, mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn cyfleu'r cysyniadau a hanfod y dysgu a ddylai fod yn sail i amrywiaeth o wahanol bynciau, gweithgareddau dysgu a'r broses o gaffael gwybodaeth;
- yr angen am arloesedd a chreadigrwydd. Dylai ymarferwyr gael eu grymuso i ddewis cynnwys, gan eu galluogi i ddefnyddio eu sgiliau proffesiynol i ysgogi dysgu a chanlyniadau gwell i'w dysgwyr.

Am y rhesymau hyn, nid yw'r Fframwaith yn ceisio rhagnodi rhestr lawn o bynciau neu weithgareddau penodol. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r bynciau neu'r gweithgareddau penodol yn bwysig. Yn hytrach, mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi hanfod y dysgu a ddylai fod yn sail iddynt.

Gan adeiladu ar waith ac argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad (OECD), mae'n hanfodol ein bod yn deall llwyddiant y diwygiadau: pa mor llwyddiannus y mae'r diwygiadau yn cael eu cyflawni mewn ysgolion ac i ba raddau y mae hynny'n cael effaith ar ganlyniadau ehangach. Gan gefnogi hyn, mae'r fersiwn wedi'i diweddarau o Cenhadaeth ein Cenedl, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn nodi cynlluniau ar gyfer cynllun gweithredu a rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr, y mae'r ddau ohonynt yn hanfodol i sicrhau cysondeb rhwng ysgolion a deall cynnydd yn genedlaethol.

Un o amcanion galluogi'r cwricwlwm newydd yw 'trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd cadarn' newydd. Wrth wraidd y trefniadau newydd bydd amrywiaeth eang o wybodaeth o ansawdd uchel am ysgolion, a rhannau eraill o'r system, y bydd angen ei defnyddio mewn ffordd fwy amserol, deallus a chefnogol. Bydd y system werthuso newydd ar waith er mwyn sicrhau bod y profiad dysgu cyfan, cynnydd dysgwyr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn cael eu cofnodi'n well.

Rhan o gam nesaf y gwaith hwn fydd sefydlu prosiect ymchwil i ystyried anghenion tystiolaeth yn y dyfodol i ategu hunanwerthuso a gwelliant parhaus ar bob lefel yn y system ysgolion. Drwy'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd, rydym yn bwriadu meithrin dealltwriaeth well o'r profiad dysgu cyfan, cynnydd dysgwyr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Rwyf am i hyn fod yn ehangach na diffinio mesurau perfformiad safonedig. Y nod fydd helpu i nodi gwybodaeth briodol sydd ei hangen at ddibenion gwahanol ym mhob rhan o'r system ysgolion.

Elfen bwysig o'r trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd fydd arolygiadau ysgolion Estyn. Bydd arolygiadau ysgolion yn datblygu i gyd-fynd â'r newidiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd.

Bydd Estyn yn parhau i ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid ac yn treialu unrhyw drefniadau newydd cyn i unrhyw beth gael ei roi ar waith. Fodd bynnag, cynigir y dylent gael eu cynnal yn amlach er mwyn rhoi sicrwydd rheolaidd i rieni a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys ysgolion eu hunain, ynghylch y safonau sy'n cael eu cyrraedd a'r blaenoriaethau o ran sicrhau gwelliant pellach.

At hynny, byddaf yn parhau i wahodd a chroesawu gwaith craffu ar safonau ysgolion yng Nghymru yn genedlaethol. Yn 'Cenhadaeth ein Gwlad', dywedais fy mod yn bwriadu gwahodd yr OECD i gynnal rhagor o adolygiadau ar adegau allweddol yn ystod ein taith diwygio addysg genedlaethol, ac rwyf wedi cyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Mae canlyniadau PISA, a gyhoeddir bob tair blynedd, yn rhoi syniad inni o'r cynnydd rydym yn ei wneud ac maent hefyd yn ffynhonnell werthfawr o ddata a gwaith dadansoddi.

- ◆ *Rydych wedi egluro sut y bydd materion fel iechyd meddwl a llesiant, a chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn cael eu haddysgu fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, drwy'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau statudol, ac wedi dadlau nad oes angen iddynt gael eu cynnwys ar wyneb y Bil. Pam nad yw'r dull hwn yn cael ei ystyried yn ddigonol yn achos Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sydd ill dau yn elfennau gorfodol a bennir ar wyneb y Bil?*

Ein gweledigaeth ar gyfer Cymru yw sefydlu system addysg gwbl gynhwysol lle mae gan bob dysgwr gyfle teg i ddysgu a chael profiadau sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i gymryd rhan mewn addysg, cael budd ohoni a'i mwynhau.

Drwy God yr Hyn sy'n Bwysig, bydd yn ofynnol i ysgolion ymgorffori cysyniadau allweddol dysgu yn eu cwricwla. Caiff y Cod ei gysoni ag elfennau allweddol o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Bydd hyn yn sicrhau lefel o ehangder a chydbwysedd yng nghwricwlwm pob ysgol, gan ei gwneud yn ofynnol iddi ymgorffori cysyniadau dysgu allweddol ar gyfer pob oedran a cham, a bod pob cwricwlwm yn cael ei lunio o fewn fframwaith cenedlaethol cadarn.

Mae meysydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil oherwydd eu pwysigrwydd fel pynciau craidd o ran cyfrannu at y pedwar diben a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Argymhellodd panel annibynnol o arbenigwyr y dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd i Gymru, er mwyn annog ysgolion i ymgysylltu â'r amrywiaeth ehangach o bynciau a nodwyd gan y panel a sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn canolbwyntio mwy ar iechyd a llesiant.

Mae MDaPH y Dyniaethau yn rhoi cyd-destunau i blant a phobl ifanc ddysgu am bobl, lle, amser a chred. Mae Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn elfen hanfodol o hyn am ei fod yn cynnig amrywiaeth o ddulliau disgyblaethol a ddefnyddir gan ddysgwyr i ymgysylltu mewn ffordd feirniadol ag amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. Y bwriad yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i ystyried cydberthynas hanesyddol a chyfoes Cymru ag athroniaeth a safbwyntiau crefyddol, gan gynnwys credoau anghrefyddol. Am y rheswm hwn, mae rhanddeiliaid allweddol a minnau yn cytuno y dylai pwnc mor bwysig â hwn fod ar wyneb y Bil.

Felly, mae heriau eithaf unigryw yn gysylltiedig ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel pynciau craidd. Mae risg y bydd ychwanegu themâu yn arwain ar ragnodi ar wyneb y Bil, a allai danseilio egwyddorion allweddol y Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'i arwain gan ddibenion. Byddai hyn hefyd yn tanseilio diben Cod yr Hyn sy'n Bwysig a fydd yn ymgorffori'r themâu hyn fel cysyniadau allweddol yn y cwricwlwm. Mae'n rhaid inni sicrhau, fel y nodwyd gennyf i a rhanddeiliaid allweddol mewn sesiynau tystiolaeth lafar â'r Pwyllgor, na fydd y Bil yn datblygu'n rhestr o bynciau na themâu.

## **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

- ◆ *Rydym wedi cael tystiolaeth gan sefydliadau ffydd, sy'n nodi, er bod yr addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol a ddarperir gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr eisoes yn "blwraliaethol", ac y bydd yn parhau i fod yn blwraliaethol, y bydd ei gwneud yn ofynnol iddynt ddylunio a darparu (os gofynnir am hynny) addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg **sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig yn gallu peri i ysgolion unigol dorri rheolau gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol. Ai dyma'ch dealltwriaeth chi o'r sefyllfa?***

Nid yw'r gweithredoedd ymddiriedolaeth wedi'u rhannu â ni. Nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu gweithredoedd ymddiriedolaeth pob ysgol ac, felly, ni allwn fod yn sicr eu bod yn blwraliaethol.

Mae cyfraith achosion a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol i addysg grefyddol blwraliaethol fod ar gael i bob dysgwr. Felly, mae'r Bil yn rhoi'r hawl i rieni ddewis addysg grefyddol blwraliaethol i'w plant, gan gynnwys y rhai sy'n mynd i ysgolion â nodweddion crefyddol.

Mae'r Bil yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol, gan alluogi ysgolion â nodweddion crefyddol i barhau i addysgu addysg grefyddol yn unol â'u hethos enwadol.

- ◆ *A yw'n bosibl i addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol gyd-fynd â'r maes llafur cytunedig, hyd yn oed pan fo'r addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol yn blwraliaethol?*

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod ei bod yn ddigon posibl bod Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn cynnwys llawer o'r cynnwys yn y maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, mae angen i'r Bil allu gwarantu bod Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob dysgwr. Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn sicrhau bod Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob dysgwr, drwy'r maes llafur cytunedig.

- ◆ *Os nad yw'n bosibl, a yw'n dilyn y bydd yn rhaid i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr bob amser ddylunio dau faes llafur (un sy'n cyd-fynd â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol / daliadau'r grefydd, ac un sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig)?*

Rwyf wedi nodi'n glir mai mater i ysgolion yw ystyried sut y gallant lunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr. Mae'r Bil yn darparu bod angen gwneud "darpariaeth ychwanegol" sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig o dan amgylchiadau lle nad yw'r maes llafur enwadol yn cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig.

Rydym yn cydnabod y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ysgolion â nodweddion crefyddol, er ein bod ar ddeall mai prin iawn oedd y rhieni a dynnodd eu plant yn ôl o

Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn flaenorol. Rydym yn disgwyl i hyn gael ei adlewyrchu yn y cynnig hwn.

Mae CYSAG ym mhob awdurdod lleol yn helpu ysgolion i gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig. A gall ysgolion ystyried sut y gallent gydweithio ag ysgolion eraill i ddarparu Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd y fframwaith drafft ategol ar gyfer Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhoi canllawiau i bob ysgol ar sut i gymhwyso maes llafur cytunedig wrth lunio ei chwricwlwm.

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru ar roi'r Bil ar waith, ac mae cyllid wedi'i ddyrannu i'w galluogi i ddatblygu rhagor o ganllawiau er mwyn cefnogi Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol mewn ysgolion.

- ◆ *Pam mae'r sefyllfa'n wahanol i ysgolion gwirfoddol a reolir, y mae'n ofynnol iddynt ddylunio a darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg gan **roi sylw** i'r maes llafur cytunedig? A yw'r ffaith mai dim ond **rhoi sylw** i'r maes llafur cytunedig y mae'n rhaid iddynt ei wneud yn golygu ei bod yn haws iddynt ddarparu un maes llafur sy'n gwneud hyn ac, sydd ar yr un pryd, yn **cyd-fynd** â gweithredoedd ymddiriedolaeth / ddaliadau'r grefydd o ran yr ysgol.*

Mae'r ddyletswydd i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â maes llafur cytunedig os gofynnir iddynt wneud hynny, yn gyson â'r ddyletswydd i'r ysgolion hyn gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth.

Y ddyletswydd mewn perthynas â maes llafur cytunedig yw cyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â maes llafur cytunedig a luniwyd yn lleol gan y CYSAG a Chynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar gyfer yr ardal honno.

*Mae dyletswydd i roi sylw i faes llafur cytunedig yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ysgolion gwirfoddol a reolir o ran y ffordd y maent yn cymhwyso maes llafur cytunedig. Nid dyma'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y bwriad yw cysoni'r gofyniad arnynt i gyflwyno'r maes llafur cytunedig â'r gofyniad i gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth.*

- ◆ *Gwnaethoch nodi nad oes data ffurfiol yn cael eu casglu ar nifer y rhieni sy'n tynnu eu plant o wersi addysg rhyw ar hyn o bryd ond y credir ei fod, yn anecdotaidd, yn nifer fach iawn. A yw'r un peth yn wir o ran nifer y rhieni sy'n tynnu eu plant o wersi addysg grefyddol ar hyn o bryd?*

Mae hynny'n gywir, ni chaiff unrhyw ddata ffurfiol eu casglu mewn perthynas â'r hawl i dynnu plant o wersi addysg grefyddol ond mae partneriaid a rhanddeiliaid ym maes addysg, gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, wedi fy hysbysu bod y nifer, yn anecdotaidd, yn fach iawn.


Fodd bynnag, mae'r hawl yn un gyffredinol, ac nid oes rhaid i rieni gyfiawnhau eu penderfyniad i dynnu eu plant o wersi addysg grefyddol ac nid oes rhaid i ysgolion ofyn iddynt wneud hynny.

- ◆ *O ystyried bod hwn yn Gwricwlwm pwrpasol i Gymru, pam mae adran 62 o'r Bil yn cyfeirio at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol ym "Mhrydain Fawr", yn hytrach nag yng "Nghymru", yn y gofyniad o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?*

Mae'r ddarpariaeth a wneir yn y Bil yn hyn o beth yn gyson â'r ddarpariaeth bresennol ynglŷn â threfniadau'r maes llafur cytunedig yn Neddf Addysg 1996 sy'n cyfeirio at Brydain Fawr. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried a yw hyn yn fater y gellid ei ailystyried ar gyfer gwelliannau'r Llywodraeth yng Nghyfnod 2.

Gobeithio y bydd yr ymateb uchod wedi ateb gweddill eich ymholiadau ac y bydd yn cyfrannu'n ddigonol at eich adroddiad, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar 4 Rhagfyr. Os bydd gennych unrhyw bwyntiau eraill i'w trafod, byddwn yn croesawu deialog bellach.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education





Ein cyf/Our ref: MA/KW/3706/20

Lynne Neagle AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru

3 Tachwedd 2020

Annwyl Lynne,

Diolch am eich gohebiaeth ddiweddar at Weinidogion Cymru yn gofyn am eglurhad ar rai materion sy'n ymwneud â'r cyfnod atal byr presennol yng Nghymru. Rydw i'n ymateb gan fod eich cwestiynau'n gysylltiedig â'r portffolio Addysg. Er hwylustod, byddaf yn ymateb i bob un o'ch cwestiynau yn unigol fel y nodir isod.

**A gafodd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei baratoi a'i ddefnyddio wrth benderfynu cyflwyno cyfnod atal byr o 23 Hydref ymlaen? A fyddai modd cyhoeddi'r Asesiad hwn a rhoi copi i'r Pwyllgor?**

Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig ar ein gwefan yr wythnos ddiwethaf yn amlinellu'r mesurau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod atal, gan gynnwys presenoldeb mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae copi ar gael [yma](#).

**Pa sail resymegol sydd i'r penderfyniad i ailagor ysgolion cynradd ac arbennig, yn ogystal ag ysgolion uwchradd i blant ym mlynnyddoedd saith ac wyth, ar ôl hanner tymor, ond i beidio â gwneud hynny yn achos y grwpiau blwyddyn eraill yn yr ysgolion uwchradd neu'r colegau (bydd llawer o'r disgyblion hyn yn sefyll arholiadau yn ystod y flwyddyn academaidd hon ac mae'n bosibl bod y pandemig wedi effeithio ar eu llesiant eisoes)?**

Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf gan ein Grŵp Cyngor Technegol a helpodd i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud â'r cyfnod atal wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan a gellir ei gweld [yma](#).

Y cyfnod atal hwn yw'r byrraf y gallwn ei gael, ond mae hynny'n golygu bod rhaid i bob un ohonom ledled Cymru chwarae ein rhan, er mwyn iddo gael yr effaith fwyaf bosibl ar leihau nifer yr achosion o'r feirws. Mae tystiolaeth wyddonol yn awgrymu, er mai effaith gymedrol ar arafu lledaeniad y coronafeirws y mae cyfyngu presenoldeb mewn ysgolion yn debygol o'i chael, o'i gyfuno â chyfyngiadau eraill bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at leihau'r gyfradd drosglwyddo. Felly, mae cyfyngu ar nifer y dysgwyr yn ein hysgolion yn rhan o'r cyfraniad at ein hymdrech ehangach, genedlaethol. Yn ystod y cyfnod hwn rydym yn gwneud popeth a allwn i sicrhau bod cymaint o addysg â phosibl yn digwydd, bod cyn lleied o darfu â phosibl ar hynny a'n bod yn cadw Cymru'n dysgu. Mae ysgolion wedi dysgu gwersi o'r cyfnod clo cyntaf ac wedi rhoi trefniadau ar waith rhag ofn y bydd tarfu ar ddysgu'r tymor hwn.

Wrth gydbwysu'r cyngor gwyddonol a meddygol, gwnaethom benderfynu, fel Llywodraeth, y bydd ysgolion cynradd, ysgolion arbennig a disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 yn dysgu wyneb yn wyneb yn ystod ail wythnos y cyfnod atal. Bydd dysgwyr mewn grwpiau blwyddyn eraill hefyd yn gallu mynd i'r ysgol i sefyll arholiadau.

O ran dysgwyr ym mlynyddoedd 9-13, rydym yn sylweddoli bod y rhain yn fisoedd anodd iawn ac y bydd pob plentyn a pherson ifanc, a'u teuluoedd yn pryderu am eu dyfodol. Dyna pam y bydd y dysgwyr hyn yn parhau i dderbyn eu haddysg drwy ddysgu cyfunol yn ystod ail wythnos y cyfnod atal byr. Mae'r grwpiau blwyddyn hyn yn gallu ymdopi â dysgu hunangyfeiriedig yn well, a byddant yn cael eu cefnogi am yr wythnos gan eu hathrawon, a fydd yn yr ystafell ddosbarth.

### **Sut y sicrhawyd bod dyletswydd Llywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i erthygl 28 o'r CCUHP yn cael ei chymhwyso i'r penderfyniad y byddai disgyblion blwyddyn 9 a hŷn yn cael eu haddysgu gartref?**

Fel yr amlinellwyd eisoes, cyhoeddwyd Aseiad Effaith Integredig ar ein gwefan yr wythnos ddiwethaf yn amlinellu'r mesurau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod atal, gan gynnwys presenoldeb mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae copi ar gael [yma](#).

### **Pa ganllawiau a chymorth sydd / a fydd ar gael i sicrhau bod myfyrwyr ym mlynyddoedd 9-13 a / neu'r coleg yn cael darpariaeth ar-lein o safon ar ôl y gwyliau hanner tymor?**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Ganllawiau Dysgu](#) ar gyfer y cyfnod atal byr ddydd Mercher 21 Hydref. Cyhoeddwyd y rhain ar ôl trafod â rhanddeiliaid ac roeddent yn adlewyrchu eu sylwadau. Mae'r canllawiau'n cynnwys disgwyliadau o ran beth y dylai dysgu ei gwmpasu, a'r hyn y dylai'r gwaith addysgu ei gynnwys ar gyfer y cyfnod hwn, yn enwedig ar gyfer disgyblion blynyddoedd ysgol 9-13 nad ydynt ar safle'r ysgol. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys dolenni at adnoddau ar y we i ysgolion, i'w cynorthwyo wrth iddynt gynnig addysg o bell.

Cyhoeddwyd [canllawiau](#) dysgu cyfunol gennym hefyd ar gyfer colegau a darparwyr ôl-16 eraill, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Estyn, Jisc a chynrychiolwyr y sector drwy ein gweithgor dysgu cyfunol. Rydym yn parhau i weithio gyda'r sector i helpu i sicrhau bod canllawiau perthnasol ar waith, gan gynnwys mewn ymateb i adborth gan yr Undeb Prifysgolion a Cholegau am yr heriau a wynebir gan ddarlithwyr addysg bellach.

Rhannwyd £3.2m o gyllid cyfalaf gennym yn gynharach eleni i ddarparu dyfeisiau, cysylltedd a meddalwedd ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, a chyn hir byddwn yn cyhoeddi arian pellach a sicrhawyd drwy Siambr y Seren. Gall darparwyr ôl-16 hefyd gael cyngor a chymorth drwy Jisc, sy'n cefnogi defnyddio technoleg yn y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

### **Pa drefniadau penodol y mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r sector addysg uwch, wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â lles myfyrwyr, gwasanaethau cymorth a llety yn ystod y cyfnod atal byr a'r tu hwnt?**

Fel y cydnabuwyd yn eich llythyr, rydym wedi dyrannu £10 miliwn ychwanegol o gyllid i brifysgolion yng Nghymru, i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl i fyfyrwyr a chronfeydd caledi ariannol yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y cyllid hwn yn cynnwys cynyddu capasiti yr undebau myfyrwyr a phrifysgolion i ddarparu gwasanaethau



cymorth i fyfyrwyr a staff, gan gynnwys cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ddarparu cymorth a gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau bwyd, i fyfyrwyr sy'n gorfod hunanynysu. Bydd y cyllid hefyd yn cael ei gyfeirio at sicrhau bod darpariaeth ychwanegol ar waith ar gyfer cymorth dysgu i fyfyrwyr sy'n agored i niwed, y rhai ag anableddau, a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys helpu i fynd i'r afael â thlodi digidol.

O'r dyraniad o £10 miliwn, mae CCAUC wedi dyrannu £900k ychwanegol at yr £1.8 miliwn a ddyrannwyd ganddynt eisoes er mwyn gweithredu cynlluniau strategol sefydliadau ar gyfer iechyd a lles. Mae CCAUC wedi dyrannu £50k i Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru i gefnogi undebau myfyrwyr i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i fyfyrwyr, a £50k arall i sefydliadau i gefnogi eu hundebau myfyrwyr yn uniongyrchol. Bydd llawer o bobl ifanc sy'n astudio mewn prifysgol yn wynebu caledi ariannol o ganlyniad i'r pandemig ac mae CCAUC wedi dyrannu £5 miliwn i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr llawn amser. Dyrannwyd £2.65 miliwn arall i ehangu mynediad i fyfyrwyr, mewn ymateb i'n hanogaeth i gefnogi myfyrwyr y mae'r pandemig yn fwy tebygol o gael effaith niweidiol arnynt.

Rhyddhawyd yr arian hwn i brifysgolion ddiwedd mis Hydref 2020, yn ystod y cyfnod atal byr. Ceir rhagor o fanylion am y cyllid yng [Nghylchlythyr W20/32HE CCAUC](#) (Saesneg yn unig), a gyhoeddwyd 22 Hydref.

### **Pa drefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i gydweithio a chydgyssylltu â darparwyr addysg uwch? Pa faterion neu risgiau sylweddol y mae darparwyr wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru atynt mewn perthynas â'r cyfnod atal byr a'r mesurau tymor hwy, a faint o'r rhain sy'n parhau?**

Mae darparwyr addysg uwch yn parhau i gynnig model o addysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb, ac mae myfyrwyr yn parhau i allu cael mynediad at gyfleusterau addysg fel llyfrgelloedd yn eu prifysgolion.

Roedd sicrhau bod myfyrwyr yn gallu parhau â'u haddysg ac aros lle roeddent yn byw yn nod pwysig wrth gynllunio ar gyfer y cyfnod atal, er mwyn lleihau'r risg y byddai myfyrwyr yn heidio o'u prifysgolion yn gwbl ddirolaeth, sefyllfa a allai waethygu lledaeniad y feirws. Er bod achosion o Covid-19 wedi codi ymhlith myfyrwyr, mae tystiolaeth yn dangos bod hyn yn digwydd y tu allan i'r amgylchedd addysgu a dysgu.

Felly buom yn gweithio gyda chydweithwyr yn y sector prifysgolion i sicrhau y byddai'n ymarferol parhau i gynnig cyfleoedd i ddysgu wyneb yn wyneb a chyfleusterau addysgol fel rhan o ddull cyfunol ynghyd â dysgu ar-lein yn ystod y cyfnod atal, a gwnaethom sicrhau bod ein rheoliadau'n caniatáu hynny.

Mae materion pwysig sy'n ymwneud â phrifysgolion a'r cyfnod atal wedi'u datrys, diolch i'r dilyniant yn ein dull gweithredu. Fodd bynnag, fel y gwyr y pwyllgor, rydym yn dal wrthi'n cwblhau cynlluniau'r trefniadau ar gyfer diwedd y tymor, i'w gwneud yn bosibl i fyfyrwyr ddychwelyd, os dymunant, i'r aelwyd sy'n gartref iddynt y tu allan i dymhorau academaidd. Bwriadwn gwblhau'r cynlluniau hyn a rhannu'r manylion yn fuan.

### **Pa waith fydd yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod atal byr i fonitro ac asesu ei effaith ar blant a phobl ifanc (gan gynnwys myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch)? Pa gynlluniau sydd ar waith i ddysgu o'r cyfnod hwn - ac i ddatblygu'r egwyddorion y dylid eu mabwysiadu - wrth wneud penderfyniadau am unrhyw gyfnod atal byr posibl yn y dyfodol?**

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, undebau llafur ac ysgolion i drafod effaith y cyfnod atal a'r hyn y mae'n ei olygu ar

gyfer y dyfodol. Yr wythnos diwethaf, cynheliais gyfarfod â Chyfarwyddwyr Addysg, undebau llafur a CLILC i drafod yr union fater hwn. Rydym wedi anfon neges glir bod angen i bob dysgwr fod yn bresennol yn yr ysgol lle bo hynny'n bosibl, ond rydym yn cydnabod bod gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth ymateb i'r ymdrech genedlaethol i leihau'r gyfradd R. Mae awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion yn gwneud popeth a allant i sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i ysgolion barhau i gynnig dysgu wyneb yn wyneb ac rwy'n cymeradwyo eu gwydnwch a'u gwaith caled.

Rydym hefyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf o wahanol ffynonellau fel yr adroddiad ar fabanod dan y cyfnod clo, ac oddi wrth ein grŵp rhanddeiliaid allanol, Plant a Phobl Ifanc Agored i Niwed a chan weithwyr proffesiynol rheng flaen. Mae'r wybodaeth hon yn llywio ein dealltwriaeth o'r effaith ar blant a phobl ifanc. Rydw i hefyd, wrth gwrs, yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Plant Cymru i sicrhau llif o wybodaeth ynghylch materion sy'n wynebu Plant a Phobl Ifanc.

Rydym hefyd yn caniatáu i ddysgwyr sydd ag arholiadau yn ystod y cyfnod atal fynd i'r coleg ar gyfer eu harholiadau, ac mae rheoliadau wedi'u gosod i sicrhau y gall dysgwyr sy'n agored i niwed barhau i fynd i'r coleg pan fo hynny'n bwysig er lles eu hiechyd meddyliol ac emosiynol. Mewn sefydliadau Addysg Bellach, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau, ac mae llawer yn astudio cyrsiau galwedigaethol sy'n gofyn am ddysgu ymarferol. Felly, mae ein canllawiau'n rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i golegau gynllunio a rheoli eu dull gweithredu gan ddefnyddio modelau dysgu cyfunol, fel y gall yr amser yn y coleg ac ar-lein adlewyrchu anghenion penodol dysgwyr a'r cyrsiau y maent yn eu hastudio.

Rydym yn cynllunio arolwg o ddysgwyr mewn colegau, dosbarthiadau chwech, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion yn ddiweddarach y tymor hwn i helpu i ddeall effaith Covid-19 ar eu cynnydd addysgol a'u lles, a bydd hyn yn ein helpu i ddiffinio egwyddorion a chanllawiau ar gyfer y dyfodol.

**A allwch chi gadarnhau'r prif ffactorau y byddwch chi'n eu hystyried, ac o ba ffynonellau y byddwch chi'n cael cyngor, wrth benderfynu sut i ddyfarnu cymwysterau yn 2021 ac wrth ystyried amserlen ar gyfer gwneud a chyhoeddi'r penderfyniad hwn?**


Rwyf wedi cadarnhau y byddaf yn gwneud cyhoeddiad am ein dull o ymdrin â chymwysterau yn 2021 ar 10 Tachwedd pan fydd dysgwyr sydd mewn carfanau arholiadau yn ôl yn yr ysgol neu'r coleg, a'u hathrawon gyda nhw i ddarparu cymorth a chynngor.

I'm cefnogi i wneud y penderfyniad hwn, byddaf yn defnyddio'r adroddiad interim ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol a gomisiynwyd gennyf i edrych ar y trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer haf 2020 a'r gwersi y gellir eu dysgu o hyn i lywio ein dull o ymdrin â chymwysterau yn 2021. Yng ngoleuni'r ffaith bod y tarfu yn parhau, gofynnais hefyd am gyngor pellach gan Cymwysterau Cymru ynghylch yr opsiynau sydd ar gael yn awr, gan ganolbwyntio'n glir ar gydraddoldeb ac ymarferoldeb.

Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn clywed gan y dysgwyr eu hunain, yn ogystal â chan weithwyr proffesiynol, o ran llywio'r ffordd ymlaen fel y gallwn ddysgu o'u profiadau wrth ymgeisio am gymwysterau eleni ac wrth baratoi ar eu cyfer y flwyddyn nesaf. Byddaf yn cysylltu ymhellach â dysgwyr a'r gweithlu yr wythnos nesaf cyn gwneud cyhoeddiad ar 10 Tachwedd.

Rwy'n gobeithio y bydd yr atebion hyn yn helpu gwaith craffu presennol eich Pwyllgor ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Cc

Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol